

Cyfarfod Cyffredinol Cyngor Tref Penrhyndeudraeth, 12 Mawrth 2026, 7.00 yh yn y Neuadd Drefol

General Meeting of Cyngor Tref Penrhyndeudraeth 12 March 2026 at 7.00pm in the Neuadd Drefol

Gall aelodau'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod yn y Neuadd Drefol neu arsylwi'n rhithol drwy gysylltu â ctpenrhyndeudraeth@gmail.com

Members of the public can join the meeting in the Neuadd Drefol or remotely by contacting ctpenrhyndeudraeth@gmail.com

1. **Croeso/Welcome:** Croesawyd pawb/ *Welcome to all.*
2. **Presennol ac Ymddiheuriadau/ Present and apologies**
 - 2.1 **Presennol/Present:** Gwyn Vaughan Jones (Cadeirydd), Y cyng. Meryl Roberts, Ashley Jones, Sarah Roberts, Emma Fon Orr, Steven Murray (Clerc Asedau) a Rhiannon Davies-Jones (Clerc).
 - 2.2 **Ymddiheuriadau/Apologies:** Einir Williams (is-gadeirydd), Sian Llywelyn, Tony Owen, Sion Harris a Nia Jones.
 - 2.3 **Aelod o'r cyhoedd/Member of the Public:** John Roberts
3. **Cyflwyniad gan Mark Gahan, Cyngor Gwynedd - Cyfleoedd am grantiau / Introduction by Mark Gahan, Cyngor Gwynedd - Opportunities for grants** - Cyflwynodd MG ei hun fel Swyddog Cefnogi Cymunedol, Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd. Esboniodd fod cronfa newydd ar gael, yn debyg i "Gwynedd Ni", sydd wedi'i seilio ar boblogaeth yr ardal. Ar gyfer Penrhyndeudraeth, gallai swm o £7,000 fod ar gael fel grant i gefnogi prosiectau cyfalaf sy'n gwella mannau cymunedol, ardaloedd cyhoeddus ac sy'n cyfrannu at adfywio lleol. Byddai unrhyw gais yn gorfod cael ei gyflwyno drwy'r Cyngor Tref. Gofynnodd MG os oedd gennym unrhyw brosiectau a fyddai angen cyllid. Dywedodd RDJ fod angen cyllid i helpu gwella parc Minffordd, ac y byddai RDJ yn cysylltu â MG i drafod ymhellach.

MG introduced himself as the Community Support Officer, Economy & Community Department for the Gwynedd Council. He explained that there is a new fund available, similar to "Gwynedd Ni" which is based on the population of the area. For Penrhyndeudraeth, the sum of £7,000 could be made available as a grant to support capital projects that improve community spaces, public areas and contribute to local regeneration. Any application would need to be made via the Cyngor Tref. MG asked if

we had any potential projects that may need funding. RDJ explained that we need funding to help improve the park in Minffordd and that RDJ would be in touch with MG to discuss further.

4. **Cymeradwyo cofnodion Chwefror / Approve February minutes** - Cymeradwywyd gan/accepted by AJ a SR.
5. **Datgan buddiant, cysylltiad, diddordeb/ Declaration of interest, benefits, connection** - Dim/None.
6. **Adroddiad ariannol / financial report**
 - 6.1 Y llyfr arian/ Cash book

I FEWN

Dref Werdd - rhent Neuadd Drefol	£100.00
Pobl Odd - rhent Neuadd Drefol	£20.00
Liz Lane - rhent Neuadd Drefol	£35.00
Cyngor Gwynedd - Croeso Cynnes	£258.22 (arian grant - croeso cynnes)
Wolseley - ad-daliad - toiled	£118.80
Cyngor Gwynedd - grant	£7440.73 (hwb cymunedol)

ALLAN

BT - internet	£35.94
Alan Williams - cynnal a chadw	£180.00
Ffon Clerc	£11.50
NEST - pensiwn	£62.79
Dwr Cymru - dwr swyddfa	£98.09
Rhiannon D-J - Cyflog Clerc	£1794.19
Steven Murray - Cyflog	£1279.00
PAYE & NIC	£392.44
British gas - gas swyddfa	£98.14
Rock Engineering - gwaith parc	£630.00
Xero UK Ltd - cyfrifon	£44.40
Smartest energy - trydan swyddfa	£106.21
TJT Plumbing - toiled newydd (d)	£300.00 (o arian y grant)
TJT Plumbing - toiled newydd (m)	£430.00
Huws Gray - Drws newydd	£576.00 (o arian y grant)
Chat GPT	£7.00
Pritchard a Griffiths - ail agor bedd	£570.00
AER - tynnu polion a EICR	£816.10 (o arian y grant)
Jake Farrell - cwpwrdd, drws ayyb	£895.00 (o arian y grant)

Meryl Roberts - ad-daliad	£103.22 (grant croeso cynnes)
Howdens - cladding newydd	£83.29 (o arian y grant)
Huws Gray - nwyddau	£204.78 (o arian y grant)
Blinds2Go - bleinds newydd	£184.78 (o arian y grant)
Meryl Roberts - bleinds newydd	£60.61 (o arian y grant)

Grantiau Blynnyddol/ Yearly Grants

Ysgol Cefn Coch - £1,200

Yr Wylan - £250.00

Gwerin y Coed - £350.00

Theatr Bara Caws - £100.00

Yr Urdd - £100.00

6.2 Cadarnhau Lwfansau Cyngorwyr ar gyfer 2025–26 yn unol â Phenderfyniadau'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Flynyddol/ *Confirmation of Councillors' Allowances for 2025–26 in accordance with the Annual Remuneration Determinations* - Dosbarthodd RDJ y ffurflenni lwfans cyngorwyr i'r Cyngorwyr ac eglurodd fod gan y Cyngorwyr hawl i hawlio'r ddau lwfans o dan y Penderfyniadau Taliadau Blynnyddol a gyhoeddir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru/ *RDJ handed the councillor allowance forms to the Councillors and advised that the Councillors are entitled to claim the two allowances under the Annual Remuneration Determinations issued by the Democracy and Boundary Commission Cymru.*

7. Eitemiau sefydlog/Regular items

7.1 Mynwent Minffordd Cemetery - Gweler isod/ *See below.*

7.2 Parc Mileniwm/ *Millennium Park* - Cadarnhaodd MR ei bod wedi bod yn plannu bylbiau ac wedi gosod gwesty pryfed yn y parc. Dywedodd hefyd fod aelod o'r cyhoedd wedi cysylltu ynghylch y "japanese knotweed" sydd wedi'i ganfod yn y parc. Cadarnhawyd y byddwn yn cysylltu â pherchnogion Fferm Tŷ'n Ffrwd, gan fod y "japanese knotweed" yn ymddangos fel petai wedi dechrau o'r ardal yna ac yn symud yn raddol i mewn i'r parc/ *MR confirmed that she had been planting bulbs and installing a bug hotel in the park. She stated that a member of the public had been in touch about the japanese knotweed that's been found in the park. We confirmed that we would get in touch with the owners of Ty'n Ffrwd Farm, as the japanese knotweed seems to have started from that area and is gradually moving into the park.*

7.3 Cae Cookes - Mae R&M Utilities bellach ar y safle ac mae cynwysyddion wedi'u gosod. Bydd Hotchief yn cynnal samplau dŵr a phridd yn fuan. Rydym hefyd wedi cytuno i ganiatáu i Gymdeithas Rhandiroedd gael mynediad i glirio'r safle/ *R&M Utilities are now on site and have installed containers. Hotchief will be carrying out the water and soil samples shortly. We have also agreed for the allotments association to have access to clear the site.*

- 7.4 Cae Chwaraau Minffordd *Playground* - Nododd EFO y byddai'n dda cael mwy o offer yn y parc ym Minffordd, a gofynnodd a fyddai'n bosib cael yr offer o'r parc sy'n cau ym Mhorthmadog/Tremadog. Cadarnhaodd RDJ fod MR wedi bod mewn cysylltiad â Chyngor Gwynedd i weld a oedd hyn yn bosib, ac rydym bellach wedi derbyn cadarnhad gan Gyngor Gwynedd na ellir aildefnyddio'r offer/ *EFO noted that it would be good to have more equipment in the park in Minffordd and asked whether it would be possible to obtain the equipment from the park that is closing in Porthmadog/Tremadog. RDJ confirmed that MR had been in contact with Gwynedd Council to see whether this was possible, but unfortunately we have now received confirmation from Gwynedd Council that the equipment cannot be reused.*
- 7.5 Maes y Parc - Dim/None.
- 7.6 Ffyrdd a parcio / parking and road - Cadarnhaodd SM ein bod wedi derbyn dyfynbris ar gyfer y wi-fi drwy Smart Town Wales ar gyfer y flwyddyn nesaf, a bydd hyn yn cael ei gynnwys ar agenda cyfarfod y mis nesaf. Roedd SM hefyd wedi bod mewn cysylltiad â Scottish Power i gael dyfynbris ynghylch man gwefrio cerbyd trydanol (EV). Bydd yn rhoi diweddariad pellach unwaith y bydd yn gwybod mwy/ *SM confirmed that we had received a quote for the wi-fi through Smart Town wales for next year and that this would be included on the agenda for next month's meeting. SM had also been in touch with Scottish Power for a quote regarding the EV Charging Point. He will update again once he knows more.*

8. Gohebiaeth/ Correspondence

- 8.1 Newyddlen Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Gwanwyn 2026/ *Spring 2026 Gwynedd Family Information Newsletter* - Er gwybodaeth/FYI.
- 8.2 Cylchlythyr y Comisiynydd: Chwefror 2026/ *Commissioner's Newsletter: February 2026* - Er gwybodaeth/FYI.
- 8.3 Cynllun Datblygu Lleol Eryri 3 - Galw am Safleoedd Posib/ *Eryri Local Development Plan 3 - call for Candidate Sites* - Er gwybodaeth/FYI.
- 8.4 Recordiad Cyfarfod Fforwm Cymunedau - Sed Chwefror 2026/ *Recorded Communities Form Meeting 5th February* - Er gwybodaeth/FYI.
- 8.5 Cyngor Gwynedd - Rhaglen Waith - Mawrth 2026/ *Cyngor Gwynedd - Works Schedule - March 2026* - Er gwybodaeth/FYI.
- 8.6 Un Llais Cymru - Tim Cymorth Argyfwng Costau Byw - Gwybodaeth a Adnoddau/ *Cost of Living Crisis Project - Information and Resources* - Er gwybodaeth/FYI.
- 8.7 Dref Werdd - Rhaglen Camau Creadigol/ *Camau Creadigol Programme* - Er gwybodaeth/FYI.

9. Materion Cynllunio/Planning Matters

Dim/ None

10. Adroddiadau/Reports

10.1 Adroddiad misol Cynghorydd sir Meryl Roberts *County Councillor monthly report* - Mae MR wedi mynychu nifer o gyfarfodydd dros y mis diwethaf, gan gynnwys un gyda National Grid, sydd wedi cadarnhau eu bod dros hanner ffordd trwy'r gwaith ar yr aber/ *MR has attended a number of meetings over the last month. One with the National Grid, who have confirmed that they are more than half way complete with the work on the estuary.*

11. Eitemau i'w trafod/ Items for Discussion

11.1 Ymddygiad gwrth-gymdeithasol ym Mhenrhyndeudraeth/ *Anti-social behaviour in Penrhyndeudraeth* - Mae cwyn wedi'i gwneud gan Liz Saville-Roberts i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ynghylch yr ymddygiad gwrthgymdeithasol. O ganlyniad i hyn, mae PCSO's yng ngorsaf Heddlu Porthmadog wedi anfon holiaduron at drigolion Penrhyndeudraeth i ofyn am eu barn. Mae'r Heddlu hefyd yn patrolio'r ardal yn amlach, ar ddydd Mawrth, dydd Gwener a dydd Sadwrn. Gofynnodd RDJ a allem edrych ar orchymyn gwahardd mewn rhai rhannau o Benrhyndeudraeth i geisio atal yr ymddygiad yma/ *A complaint has been made by Liz Saville-Roberts to the Constable of North Wales Police regarding the anti-social behaviour. This has led to the PCSO's in the Porthmadog station sending out questionnaires to the residents of Penrhyndeudraeth asking for feedback. Police are patrolling the area more often and on Tuesdays, Fridays and Saturdays. RDJ has asked if we could look at an exclusion order in certain parts of Penrhyndeudraeth to prevent this behaviour.*

11.2 Polisi Fynwent Minffordd/ *Minffordd Cemetery Policy* - Cadarnhaodd RDJ ei bod wedi bod yn diwygio polisi fynwent CTP ac wedi bod mewn cysylltiad â Chyngor Gwynedd ynghylch arwyddion sydd eu hangen ar gyfer y fynwent. Mae Cyngor Gwynedd wedi hysbysu RDJ nad oes gan y Cyngor Tref yr awdurdod i ofyn i unigolion gadw eu cŵn ar dennyn. Yn hytrach, gallwn osod arwyddion yn y fynwent yn gofyn i unigolion godi baw eu cŵn. Fel arall, gellid gwahardd cŵn yn gyfan gwbl o'r fynwent.

Trafododd y Cynghorwyr hyn a phenderfynwyd gosod arwyddion yn y fynwent i ddechrau. Bydd hyn yn cael ei fonitro, ac os bydd unrhyw faw cŵn yn cael ei ganfod, bydd y Cynghorwyr yn ystyried gwahardd cŵn yn gyfan gwbl o'r fynwent.

RDJ confirmed that she had been amending CTP's cemetery policy and had been in touch with the Gwynedd Council regarding signage needed for the cemetery. CTP has informed RDJ that we cannot ask individuals to put their dogs on a lead as we do not have the

authority to do this. Instead, we can place signs in the cemetery to ask that individuals pick up their dog foul. Alternatively, we can ban dogs all together from the cemetery.

The Councillors considered this and decided that they wanted signage to be placed in the cemetery, this would be monitored and if any dog foul is found then they would consider banning dogs altogether from the cemetery.

11.3 Gwarchod Enwau Lleoedd Cymraeg - e-bost gan Emyr Roberts/ *Protecting Welsh Place Names - email from Emyr Roberts* - Darllenodd GVJ yr e-bost a dderbyniwyd gan Emyr Roberts a gofynnodd i'r Cynghorwyr ystyried y cynnig ynglŷn â enwau lleoedd Cymraeg ar fapiau'r Ordnance Survey. Pleidleisiodd y Cynghorwyr ar y mater ac roedd pawb o blaid ysgrifennu at Ordnance Survey i ofyn i enwau'r lleoedd gael eu nodi yn Gymraeg yn unig/ *GVJ read out the email received from Emyr Roberts and asked the Councillors to consider the proposal regarding welsh names of places on the ordnance survey. The Councillors voted and all were in favour or writing to Ordnance Survey to ask that names be noted in Welsh only.*

Dyddiad cyfarfod nesaf 9 o Ebrill 2026 7yh yn y Neuadd Drefol/ Date and location of next meeting 9 April 2026 7pm in the Neuadd Drefol